

## CADWALADR, DAFYDD (1752 - 1834), cynghorwr gyda'r M.C.

**Enw:** Dafydd Cadwaladr  
**Dyddiad geni:** 1752  
**Dyddiad marw:** 1834  
**Priod:** Judith Cadwaladr (née Humphreys)  
**Plentyn:** Bridget Cadwaladr  
**Plentyn:** Elizabeth Davis  
**Rhiant:** Catrin Cadwaladr  
**Rhiant:** Dafydd Cadwaladr  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cynghorwr gyda'r M.C.  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ail fab Cadwaladr a Chatrin Dafydd o Erw Ddinmael, Llangwm, teulu a fu'n byw ar y tyddyn hwnnw am genedlaethau ac a oedd yn nodweddiadol o'r fro - yn dilyn anterliwtiau a chymhorthau gwau. Rhigymai Dafydd yntau pan yn llanc; ond ni ddysgodd ddarllen ond trwy graffu ar y llythrennau ar gefnau'r defaid a phigo ei ffordd wedyn drwy'r *Llyfr Gweddi*. Daeth yn ddarllenwr mawr, a chan fod ganddo gof hynod gryf, adroddai'r *Bardd Cwsc* a *Thaith y Pererin* yn y cymhorthau. Bu'n hogyn ar amryw ffermydd; tua 1771 aeth i weini at y pregethwr [William Evans](#) yn y Fedw Arian (y Bala), a oedd eisoes wedi denu ei fryd at Fethodistiaeth.

Tua 1777 priodwyd ef a Judith Humphreys (neu ' Erasmus '; bu hi farw tua 1795-6), a chymerth dyddyn Penrhiw gan y [Parch. Simon Lloyd](#). O'i naw plentyn bu farw'r pedwar mab o'i flaen; dwy o'i ferched oedd [Elizabeth Davis](#), ' Balaclava ', a Bridget (1795? - 1878), a fu'n gweini gyda'r [Arglwyddes Llanofer](#) yn Llundain ac yn Llanofer, ac a gladdwyd yng ' Nghapel Ed ' gerllaw Llanofer (*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, Mehefin 1918).

Tua 1780 dechreuodd bregethu. Medrai'r *Beibl* ar dafod-leferydd; dywed ei ferch mai dan wau ('yn gyflym iawn') y gwnâi ei bregethau; a chan ei fod yn gerddwr diflino (hyd yn oed i Lundain), daeth yn bregethwr a hoffid led-led Cymru. Yr oedd yn gyfaill mawr i [Thomas Charles](#), a chanodd farwnadau i Mr. a Mrs. Charles (*Ehediadau y Meddwl*, Bala, 1815). Bu farw 9 Gorffennaf 1834, a'i gladdu yn Llanycil.

O'r *Ychydig Gofnodau ar ... Dafydd Cadwaladr*, dienw, a gyhoeddwyd yn y Bala yn 1836, y tardd bron bopeth a sgrifennwyd ar Ddafydd Cadwaladr; ceir hefyd ambell gipolwg arno ef ac ar ei gefndir yn hunangofiant ei ferch [Elizabeth](#).

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Ychydig gofnodau am fywyd a marwolaeth Dafydd Cadwaladr, yr hwn a fu farw Gorphenaf 9, 1834, wedi bod yn bregethwr llafurus ym mysg y Trefnyddion Calфинаidd 52 mlynedd* (Bala 1836)

### Darllen Pellach

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd (1895-1897)*, ii, 98-108

Erthygl Wicipedia: [Dafydd Cadwaladr](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732737](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

